



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

26 Hydref 2011

Annwyl Weinidog,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr
Adolygiad ar ben**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag Argymhellion 7 (lefelau staffio), 10 (profiad cleifion) ac 11 (rhannu arferion da) o'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r trydydd ymateb, sef yr un olaf, yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan.

Argymhelliad 7

Mae trydydd ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 7 (lefelau staffio) yn fy narbwylllo bod camau'n cael eu cymryd i gydymffurfio â'm hargymhelliad. Mae'n dda gen i weld bod Cylch Gorchwyl Grŵp Staffio Nyrsys Proffesiynol Cymru bellach yn dweud bod

rhaid i'r dull newydd sy'n cael ei greu adlewyrchu'r lefelau angen presennol a'r lefelau angen a ragwelir o ran gofal pobl hŷn. Mae hyn yn bwysig oherwydd, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi'i nodi, mae pobl hŷn yn defnyddio holl wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac eithrio gwasanaethau mamolaeth a phlant ac mai nhw felly yw'r gyfran fwyaf arwyddocaol o'r boblogaeth o gleifion sy'n derbyn gofal gan GIG Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at gael gwybod yn gyson am waith datblygu'r dull ac mae'n dda gen i weld y bydd y drafft cyntaf ar gael ym mis Tachwedd eleni. Gobeithio y bydd y dull hwn, ar y cyd â'r Dangosfwrdd Nyrso newydd sy'n cael ei ddatblygu a'r dull e-amserlennu yn helpu ysbytai i bennu'r lefelau staffio priodol a'r ffordd y dylai'r staff gael eu lleoli yn well.

Argymhelliad 10

Mae'r trydydd ymateb i Argymhelliad 10 (profiad cleifion) yn peri rhywfaint o bryder imi. Rwy'n nodi bod Llywodraeth Cymru'n datgan bod ganddi ymrwymiad i glywed llais pobl hŷn mewn cynifer o ffyrdd â phosibl er mwyn bwydo'r polisiau a rhoi sicrwydd i bobl hŷn fod eu barn a'u pryderon yn cael sylw. Mae'n dda gen i fod Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad casglu safbwyntiau cleifion yw prif swyddogaeth dull archwilio Hanfodion Gofal. Fel y gwyddoch, fy marn i yw bod gan y dull hwn gyfyngiadau wrth gasglu data ansoddol ynghylch profiadau cleifion. Calondid imi felly yw gweld bod penderfyniad wedi'i wneud ar 10 Hydref 2011 i adolygu'r dull archwilio i'w wneud yn fwy effeithiol wrth gasglu tystiolaeth am brofiadau cleifion. Byddwn yn ddiolchgar am gael y newyddion diweddaraf mewn ysgrifen am gynnydd y gwaith hwn erbyn diwedd Ionawr 2012.

Dwy ddim wedi cael fy argyhoeddi y bydd yr Arolwg Aelwydydd Cenedlaethol yn ffordd effeithiol i gofnodi profiadau cleifion a bydd arnaf angen rhagor o wybodaeth i gael fy argyhoeddi y byddai'n gwneud gwahaniaeth, er enghraifft, pa gwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn a sut byddai pobl hŷn eiddil yn cael eu cynrychioli pan fydden nhw heb alluedd?

Mae'n hanfodol cael dull clir a chyson sy'n casglu profiadau pobl hŷn o'r ysbyty ac sy'n cyflwyno adroddiad arnyn nhw ar y lefel genedlaethol. Fe allai fod o gymorth trefnu bod adroddiadau ar archwiliadau Hanfodion Gofal GIG Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac rwy'n gobeithio y bydd y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth yn cael eu hannog *yn gryf* i drefnu bod canlyniadau eu harolygon nhw o brofiad cleifion ar gael yn gyhoeddus. Gall fod o fudd trefnu bod adroddiadau arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gael hefyd ond rwy'n dal yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru'n credu y byddai'n ymarferol iddyn nhw goladu canlyniadau arolygon a llunio darlun clir o'r hyn sy'n digwydd ynglŷn â phobl hŷn ac urddas ar draws yr holl ysbytai yng Nghymru. Byddai'n eithriadol o fuddiol gwneud hyn, er enghraifft er mwyn nodi'r pum prif her sy'n wynebu holl ysbytai Cymru a hefyd i nodi'r hyn sy'n cael ei wneud yn dda, a ble.

Mae yna berygl nad yw'r nifer fawr o ddulliau gweithredu yn ateb yr angen am eglurder a chysondeb. Un amcan allweddol y dylid ei osod yw mesur newidiadau mewn gofal ag urddas yn y genedl gyfan er mwyn i'r cynnydd gael ei asesu dros amser – fel arall bydd yn anodd dweud a oes unrhyw beth wedi gwella mewn gwirionedd i bobl hŷn. Mae cyflwyno adroddiadau, coladu a chloriannu profiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yn ganolog i asesiad o'r fath.

Ar y cyfan, rwyf wedi penderfynu derbyn ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 10 am ei fod yn dangos bod camau'n cael eu cymryd yn y cyfeiriad cywir. Er hynny, byddaf yn monitro'n ofalus i weld sut mae ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 10 yn cael ei roi ar waith ac os bydd angen fe fyddaf yn adolygu'r agwedd benodol yma ar ddysgu ar sail profiadau cleifion yn nes ymlaen.

Argymhelliad 11

Rwy'n fodlon ar drydydd ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 11 (rhannu arferion da). Mae'n galonogol gwybod bod rhoi f'argymhellion i ar waith wedi cael blaenoriaeth Haen 1

gan Lywodraeth Cymru ac y bydd y Llywodraeth yn dwyn y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth i gyfrif ynglŷn â chymryd y camau y maen nhw wedi addo eu cymryd. Mae hyn yn anfon neges gref at bobl hŷn yng Nghymru fod eu llais wedi'i glywed ac y bydd newid yn digwydd.

Dylai rhoi blaenoriaeth mor uchel i Argymhelliad 11, fel un o'r deuddeg argymhelliad a fydd yn cael eu monitro, helpu i fwrw ymlaen i arfarnu arferion da a mabwysiadu arferion da ledled Cymru, gyda phwyslais cryf ar sicrhau newidiadau cadarnhaol a gweladwy yng ngofal pobl hŷn. Pan fydd priod swyddogaethau'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a'r Uned Cyflenwi a Chymorth wedi'u pennu, byddwn yn awyddus i gyfarfod â'r bobl a fydd yn arwain y gwaith ar rannu'r arferion gorau o ran pobl hŷn ac urddas a pharch. A wnewch chi roi gwybod i mi hefyd pwy yn Iechyd Cyhoeddus Cymru fydd yn arwain y gwaith i helpu cyrff y GIG i rannu arferion da.

Gan fod trydydd ymateb Llywodraeth Cymru wedi bodloni fy nghais am wybodaeth ac wedi fy narbwylllo bod yna fwrriad i fynd ati o ddifrif i gydymffurfio â phob un o'm hargymhellion, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Llywodraeth Cymru bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i ac ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn yr hoffech eu trafod, cysylltwch â mi.

Yn gywir,

Ruth Marks

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

